------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 29 Ebrill 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda

(193)v3

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg: Cysoni cymorth cyflogaeth gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU (30 munud)**
**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig o fis Tachwedd 2013 ar weithredu'r Rhaglen Waith yng Nghymru [Saesneg yn unig]

Sgiliau ar Gyfer Gwaith (Cymru) – Niferoedd atgyfeirio, dechrau, cwblhau a chyflawni, Hydref 2012–Awst 2013 [Saesneg yn unig]

[Datganiad polisi ar sgiliau]

**4 Dadl: Cymeradwyo drafft y 'Cynllun Hawliau Plant 2014' o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 (60 munud)**

**NDM5489 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag adran 3(6) o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, yn cymeradwyo'r drafft o Gynllun Hawliau Plant 2014 a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 22 Ebrill 2014.

**Dogfen Ategol**

[Drafft y Cynllun Hawliau Plant 2014]

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi datganiad y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn, sydd wedi'i gynnwys yn atodiad 3 i Gynllun Hawliau Plant 2014, bod y rhwymedigaeth i roi'r brif ystyriaeth i fuddiannau gorau'r plentyn yn ymestyn hefyd at gymeradwyo cyllidebau, gan fod gofyn mabwysiadu safbwynt sy'n canolbwyntio ar fuddiannau gorau'r plentyn wrth eu paratoi a'u datblygu er mwyn iddynt fod yn sensitif i hawliau plant.

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu wrth y diffyg cyfeiriad at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn mewn deddfwriaeth ddiweddar, fel Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i danlinellu ymrwymiad Cymru i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn drwy gynnwys cyfeiriad at "sylw dyledus" ar wyneb unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol a fyddai'n effeithio ar blant.

Mae Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar y Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) ar gael yn:

http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs/cr-ld9064.pdf

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi Adroddiad Interim Corff Anllywodraethol Cymru 2013 'Hawliau Nawr, Hawliau Heddiw: A yw Hawliau Plant yn Realaeth yng Nghymru?' ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod prosesau monitro effeithiol ar waith er mwyn sicrhau "gweithredu unedig i leihau'r bwlch o ran gweithredu rhwng rhethreg polisi cenedlaethol a chyflenwi lleol".

Mae Hawliau Nawr, Hawliau Heddiw: A yw Hawliau Plant yn Realaeth yng Nghymru? ar gael yn:

https://www.savethechildren.org.uk/sites/default/files/docs/Rights_Here_Right_Now_Welsh.pdf

**5 Dadl: Cynigion ar gyfer Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 (60 munud)**

**NDM5490 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn nodi y bydd cynigion Llywodraeth Cymru yn Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 yn sbarduno ac yn cryfhau'r economi, yr amgylchedd a chydlyniant cymdeithasol yn y Gymru Wledig.

Mae cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 i'w gweld drwy'r ddolen a ganlyn:
http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/wales-rdp-2014-2020-final-proposals/?lang=cy

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Yn nodi cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020.

**Gwelliant 2 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu wrth benderfyniad Llywodraeth Cymru i ddewis trosglwyddo 15%, sef y lefel uchaf a ganiateir, i ffwrdd o daliadau uniongyrchol i ffermwyr yng Ngholofn 1 o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin i'r Rhaglen Datblygu Gwledig, gan wneud busnesau ffermio Cymru yn llai cystadleuol.

**Gwelliant 3 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn ceisio sicrwydd y bydd mesurau sy'n cael eu darparu drwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig yn cael effaith ddi-oed, amlwg a mesuradwy ar incwm ffermydd.

**Gwelliant 4 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) datblygu cynllun annibynnol ar gyfer Ardaloedd Llai Ffafriol i gefnogi'r rheini sy'n ffermio yn ardaloedd mwyaf heriol Cymru;

b) annog rhagor o ffermwyr i fanteisio ar gynllun Glastir drwy ei symleiddio ac ehangu'r mynediad iddo.

**Gwelliant 5 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu wrth benderfyniad Llywodraeth Cymru i fodiwleiddio'r 15% llawn o Golofn

1 i Golofn 2.

**Gwelliant 6 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn penderfynu y dylai Llywodraeth Cymru ddangos yn flynyddol effaith y Rhaglen Datblygu Gwledig ar incwm ffermydd.

**Gwelliant 7 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar y Llywodraeth i flaenoriaethu cymorth i ffermwyr ifanc er mwyn ysgogi'r sector ffermio.

**Gwelliant 8 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi cyfraniad sylweddol yr economi wledig at economi ehangach Cymru ac yn cydnabod y potensial ar gyfer datblygu economaidd drwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig.

**Gwelliant 9 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cynllun Ardaloedd â Chyfyngiadau Naturiol penodedig ar gyfer ffermydd mynydd.

**6 Dadl: Ail adroddiad Comisiwn Silk ar Ddatganoli yng Nghymru (60 munud)**
**NDM5491 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn croesawu cyhoeddi adroddiad diweddaraf Comisiwn Silk gan Lywodraeth y DU, y cytunwyd arno'n unfrydol, sef "Grymuso a Chyfrifoldeb: Pwerau Deddfwriaethol i

Gryfhau Cymru", ac yn ystyried yr adroddiad fel sail i'r angen mawr am ddiwygio'r setliad datganoli i Gymru.

Gallwch fynd at yr adroddiad "Grymuso a Chyfrifoldeb: Pwerau Deddfwriaethol i Gryfhau Cymru" drwy ddilyn y ddolen ganlynol:
http://commissionondevolutioninwales.independent.gov.uk/files/2014/03/Grymuso-a-Chyfrifoldeb-Pwerau-Deddfwriaethol-i-Gryfhau-Cymru.pdf

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi argymhellion Comisiwn Silk i gynnwys diwygiadau deddfwriaethol allweddol mewn maniffestos pleidiau, fel cyflwyno model cadw pwerau, trosglwyddo pwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol, a chryfhau capasiti'r Cynulliad Cenedlaethol i graffu ar ddeddfwriaeth, ac yn annog pleidiau gwleidyddol Cymru i ddilyn y cynnig hwn.

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 30 Ebrill 2014

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 24 Ebrill 2014 i'w hateb ar 29 Ebrill 2014

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. **Sandy Mewies (Delyn)**: A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae Llywodraeth Cymru yn helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yn Nelyn? OAQ(4)1625(FM)

2. **Lynne Neagle (Torfaen)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fwyngloddio ym maes glo de Cymru? OAQ(4)1608(FM)

3. **Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar gynlluniau gwaredu daearegol yng Nghymru? OAQ(4)1621(FM)**W**

4. **Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog egluro polisi Llywodraeth Cymru o ran lleoliadau cloddio glo brig yng Nghymru? OAQ(4)1623(FM)

5. **Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru)**: Pa gamau a gymerir gan Lywodraeth Cymru yn 2014 i wella gwasanaethau ar gyfer pobl sy'n dioddef o ddementia yng Nghymru? OAQ(4)1609(FM)

6. **Elin Jones (Ceredigion)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cynnydd tuag at gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd? OAQ(4)1612(FM)**W**

**7. Keith Davies (Llanelli):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgarwch Llywodraeth Cymru o ran adfywio canol trefi? OAQ(4)1620(FM)**W**

**8. Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o hygyrchedd lleoliadau chwaraeon yng Nghymru i bobl anabl? OAQ(4)1614(FM)

**9. Alun Ffred Jones (Arfon):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cynnydd yn ymdrechion Llywodraeth Cymru i ddiogelu'r Gymraeg fel iaith gymunedol? OAQ(4)1617(FM)**W**

**10. Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarparu gwasanaethau cynghori rheng flaen? OAQ(4)1610(FM)

**11. Gwyn Price (Islwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ba gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i gyn-weithwyr Remploy? OAQ(4)1611(FM)

**12. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cynnig i uno ystafelloedd rheoli Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)1613(FM)

**13. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn gwella gwasanaethau diagnosis a sgrinio canser yng Nghymru? OAQ(4)1616(FM)

**14. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am atebolrwydd y GIG yng Nghymru? OAQ(4)1618(FM)

**15. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i wneud Cymru yn hunangynhaliol o ran ynni drwy ddulliau ynni adnewyddadwy? OAQ(4)1622(FM)

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Dydd Mawrth 6 Mai 2014 a dydd Mercher 7 Mai 2014**
**Dydd Mawrth 13 Mai 2014 a dydd Mercher 14 Mai 2014**
**Dydd Mawrth 20 Mai 2014 a dydd Mercher 21 Mai 2014**
*********************************************************************

**Dydd Mawrth 6 Mai 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid: Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru: Cyfleodd am Fuddsoddiad Newydd (30 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg: Twf Swyddi Cymru (45 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon: Adroddiad y Farwnes Kay Andrews ynghylch Diwylliant a Thlodi (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth: Y wybodaeth ddiweddaraf am Bennod 7 o'r Rhaglen Lywodraethu, "Cymunedau Mwy Diogel" (45 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Entrepreneuriaeth Busnes (30 munud)

**Dydd Mercher 7 Mai 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Mike Hedges (Dwyrain Abertawe) (30 munud)

**Dydd Mawrth 13 Mai 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Tai ac Adfywio: Cydweithio mewn Partneriaeth â Chymdeithasau Tai (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Strategaeth Ddŵr i Gymru (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Y wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun gweithredu strategol morol a physgodfeydd (30 munud)
- Cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar y Bil Dadreoleiddio (15 munud)
- Dadl: Gwella Iechyd Meddwl (60 munud)

**Dydd Mercher 14 Mai 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 20 Mai 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Cyflwyno Bil Addysg Uwch (Cymru) (60 munud)

- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Datblygiad Glastir (30 munud)
- Gorchymyn Rhestrau Ardrethu (Gohirio Gwneud Rhestrau) (Cymru) 2014 (15 munud)
- Dadl: Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb – Fframwaith Gweithredu (60 munud)

**Dydd Mercher 21 Mai 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)
- Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar Lefelau Cyfranogiad mewn Chwaraeon (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Aled Roberts (Gogledd Cymru) (30 munud)